



MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth, a Chenhadaeth

www.stpadarns.ac.uk/cy/MADiwinyddiaeth

Mewn parteriaeth a Dyfarniad Cyffredin Prifysgol Durham



YCHYDIG AM ATHROFA PADARN SANT

Athrofa Padarn Sant yw adain hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru. Ei nod yw chwarae rhan mewn galluogi pobl Duw ar draws y byd i rhannu'r neges am gariad trawsnewidiol Duw.

ASTUDIO'R MA MEWN DIWINYDDIAETH, GWEINIDOGAETH, A CHENHADAETH

Wrth astudio'r MA mewn Diwinyddiaeth, Cenhadaeth a Gweinidogaeth byddwch yn archwilio ac ymgysylltu â dysgeidiaeth a thraddodiadau'r Eglwys Gristnogol drwy gydbwysedd o astudiaethau academaidd a gwaith ymarferol. Bydd y cwrs cyffrous hwn yn rhoi sylfaen i chi mewn diwinyddiaeth ymarferol ac astudiaethau Beiblaidd, ac yna'n caniatáu chi i deilwra eich astudiaethau i'ch diddordebau neu gefndir, pun ai os ydy hynny'n diwinyddiaeth ymarferol, athrawiaeth, yr Hen Destament, testament newydd ysbrydolrwydd. Cenhadaeth neu hanes yr eglwys. O fewn eich pynciau dewisiol bydd gennych y rhyddid i ganolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol, neu ganolbwyntio eich astudiaethau ar eich ardal leol neu eich sefyllfa chi.

Pa bynnag beth yw eich cefndir bydd y rhaglen yn eich annog i ddeall, trafod yn feirniadol, a datblygu yn eich disgyblaeth ddyddiol, ac eich ymarfer gweinidogaethol drwy astudiaethau a myfyrto.

GRADD MEISTR UNIGRYW

Mae'r MA yn ymwneud â'r byd sydd ohoni, ac yn cydnabod y daw ein ffydd yn fyw wrth i ni ei rhoi ar waith yn ein bywydau bob dydd, yn arbennig wrth i ni ymgysylltu â ffordd gyfoes o feddwl, diwylliant ac ysgolheictod.

Mae'r radd wedi'i hanelu at ddiwallu eich anghenion. Caiff y modiwlau eu haddysgu ar ffurf sesiynau tiwtorial mewn grŵp bach, gan sicrhau eich bod yn cael sylw personol gan y staff academaidd, a nod yr amserlen yw peidio â bod yn ormod o faich i unigolion.

Mae'r MA yn canolbwyntio ar arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae eich tiwtoriaid yn arbenigo mewn gwahanol feysydd diwinyddol a Beiblaidd ac ystyrir bod eu gwaith academaidd yn sensitif i faterion cyfoes sy'n ymwneud â'r weinidogaeth a materion cyhoeddus.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae ein rhaglen Meistr yn addas i raddedigion mewn Diwinyddiaeth neu Astudiaethau Crefyddol er gellir ystyried profiad sylweddol gweinidogaethol. Er ei bod wedi'i hanelu'n bennaf at bobl sy'n gweithio yn y weinidogaeth Gristnogol (pobl leyg neu ordeiniedig), mae'r un mor werthfawr i aelodau o rai grwpiau proffesiynol eraill (e.e. meddygaeth, gwaith cymdeithasol, addysgu), yn ogystal ag unigolion sydd â gradd israddedig mewn diwinyddiaeth neu astudiaethau crefyddol ac sy'n awyddus i ehangu eu dysgu.

Y TÎM ADDYSGU

Dr Elizabeth Corsar yw'r Tiwtor ar Astudiaethau Beiblaidd yn Athrofa Padarn Sant. Cwblhaodd ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Caeredin. Ei diddordebau ymchwil yw Efengyl Ioan a'r berthynas rhwng testunau canonaidd ac anghanonaidd.

Jill Duff yw Esgob Caerhirfryn ac mae hi hefyd yn gyn Bennaeth ar St Miletus yn y Gogledd Orllewin. Mae hi wedi darlithio'n helaeth ar Genhadaeth ac Efengyliaeth am nifer o flynyddoedd ac yn gyfathrebwr gwyd.

Siôn Aled Owen yw'r Tiwtor mewn Diwinyddiaeth Gymreig ym Mhadarn Sant. Mae ganddo Ddoethuriaeth mewn Diwinyddiaeth a Doethuriaeth mewn addysg dwyieithog. Mae'n fardd argraffedig yn Gymraeg a Saesneg. Ei brif faes ymchwil o ddiddordeb yw'r berthynas rhwng ffydd a hunaniaeth diwylliannol.

Mark Griffiths sy'n arwain ar Feithrin Disgyblion, Gweinidogion Trwyddedig Newydd a Datblygiad Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ym Mhadarn Sant. Roedd yn bennaeth ar Weinidogaeth i'r teulu gyda New Wine am 13 mlynedd. Mae ei ddoethuriaeth mewn twf y plentyn ac efengylu plant.

Jordan Hillebert yw Cyfarwyddwr Ffuriant Diwtor Athrofa Padarn Sant. Cwblhaodd ei PhD yn St Andrews. Ei bynciau arbenigol yw athrawiaeth a moeseg Gristnogol.

Charlie Hadjiev yw Cyfarwyddwr Rhaglen yr MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Mae ganddo brofiad helaeth mewn addysg diwinyddol ac ag arbenigedd mewn astudiaethau Beiblaidd ac esboniadaeth. Mae ganddo DPhil ar Astudiaethau Hen Destament o Brifysgol Rhydychen.

Mae **Jane Williams** yn Athro McDonald mewn Diwinyddiaeth Gristnogol. Bu hi hefyd yn Ddarlithydd achlysurol mewn Diwinyddiaeth yng ngholeg Kings Llundain, yn dilyn addysgu yn ngholeg y Drindod Bryste. Mae'n olygydd profiadol, yn cael ei gwahodd yn rheolaidd i ddysgu a bod yn siaradwr gwadd ar draws y byd, ac hefyd yn ynghlwm â hyrwyddo addysg diwinyddol yn rhannau eraill y Cymun Anglicanaidd.

SUT GYFLWYNIR Y CWRS?

Mae'r MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn rhaglen ôl-radd gan Brifysgol Durham ac fe gyflwynir drwy Athrofa Padarn Sant. Cynlluniwyd y rhaglen hyblyg hon i gyd-fynd â bywyd prysur y rhai sy'n gweithio, megis gweithwyr lleyg a gweinidogion ordeiniedig. Mae'n gwrs rhan-amser (dwy flynedd ac yna traethawd hir) sy'n cael ei rhannu rhwng y cyfnodau preswyl tri diwrnod, darpariaeth ar-lein a chyrsgiau diwrnod. Bydd myfyrwyr yn mwynhau dysgu a strategaethau dysgu rhyngweithiol a heriol.

Bydd dau o'r cyfnodau preswyl yn cael i gynnal Dydd Llun i Ddydd Mercher ar ein safle yng Nghaerdydd, lle ceir llyfrgell eang ac ystafelloedd addysgu priodol. Mae croeso i chi addoli ochr yn ochr ag aelodau ein coleg diwinyddol. Mae'n bosib ac yn cael ei argymhell eich bod yn cyrraedd nos Sul i gael amser ychwanegol er mwyn cael mynediad at diwtoriaid a'r llyfrgell. Nid oes cost ychwanegol ar gyfer cyrraedd ar nos Sul.

DYDDIADAU CYFNDODAU PRESWYL

| | | |
|-----------------|-------------------|-------------------|
| 18-20 Medi 2023 | 22-24 Ionawr 2024 | 29 Ebrill – 1 Mai |
|-----------------|-------------------|-------------------|

Y MODIWLAU BYDDWCH YN EU HASTUDIO

I gwblhau'r rhaglen Meistr byddwch angen cwblhau 180 o gredydau. Bydd hyn yn cynnwys chwech o fodiwlau a addysgir. (120 credyd) ac os yn llwyddiannus byddwch yn symud ymlaen at ysgrifennu traethawd hir (60 credyd)

| Blwyddyn 1 Tystysgrif Ôl-radd | Blwyddyn 2 Diploma Ôl-radd | Blwyddyn 3 MA |
|---|--|---|
| 1. Ymchwil a Myfyrio Charlie Hadjiev | 4. Astudiaethau Uwch o Destun Diwinyddol Jordan Hillebert | Traethawd hir 15,000 o eiriau Charlie Hadjiev |
| 2. Y Beibl a'r Ffydd Gristnogol (Esboniadaeth) Charlie Hadjiev | 5. Astudiaethau Beiblaidd Uwch Elizabeth Corsar | |
| 3. Pwnc Uwch o Athrawiaeth Gristnogol Jane Williams | 6. Ymarfer Myfyriol: Cenhadaeth ac Efengyliaeth Jill Duff | |

Y BROSES YMGEISIO

Fe achredir yr MA Diwinyddiaeth, Cenhadaeth a Gweinidogaeth gan Brifysgol Durham sy'n rhan o brifysgolion grŵp Rusell. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf i ddechrau yn mis Medi.

MWY O WYBODAETH

Cysylltwch â **Tina Franklin, Cydlynnydd Rhaglenni Ôl-radd:**

Ar: tina.franklin@stpadarns.ac.uk

Neu ewch i:

www.stpadarns.ac.uk/cy/MADiwinyddiaeth



ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

St Padarn's Institute is part of the Representative Body of the Church in Wales
Registered Charity Number 1142813